Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

11 Mehefin 2019

Annwyl Lesley

Amgaeir copi o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb i gasgliadau ac argymhelliad y Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd, ac **o leiaf wythnos cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynigion cydsyniad deddfwriaethol**.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ofyn am eglurhad a/neu wybodaeth bellach gennych chi am nifer o faterion sy'n codi o'ch datganiad yn y Cyfarfod Llawn yn ddiweddar ar *Brexit a'n tir*.

Nodwn eich bwriad i ymgynghori ar gynigion polisi diwygiedig ar gyfer system ffermio gynaliadwy unigol dros yr haf, gyda'r bwriad o ymateb i'r ymgynghoriad yng ngwanwyn 2020.

1. A allwch chi roi amserlen enghreifftiol ar gyfer datblygu'r system newydd y tu hwnt i wanwyn 2020?

Rydych wedi ei gwneud yn glir na ellir gwneud newidiadau i'r system gymorth bresennol nes bod y gwaith o ddylunio system newydd yn ddigonol ac mae asesiadau effaith perthnasol wedi cael eu cynnal. Rydych hefyd wedi egluro na ellir bwrw ymlaen â'r gwaith hwn cyn cael eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth amaethyddol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

2. Gan eich bod yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i newid y system gymorth bresennol am beth amser, a allwch chi egluro a yw'n dal yn fwriad gennych gymryd y pwerau perthnasol yn Rhan 1 a Rhan 2 o Atodlen 3 i Fil Amaethyddiaeth y DU a fyddai'n eich galluogi i gyflwyno system newydd?

Yn ein hadroddiad, y *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU* ('ein hadroddiad cyntaf'), rydym yn galw ar i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod amser ar gael yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru a'i basio cyn diwedd y Pumed Cynulliad. Er nad ydych eto wedi ymateb i'n hadroddiad cyntaf, rydych yn egluro yn eich ymateb i'r ymgynghoriad ar *Brexit a'n tir* y bydd yr amseru ar gyfer Bil Amaethyddiaeth Cymru yn cael ei bennu yng nghyd-destun penderfyniad ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

3. A allwch egluro pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Prif Weinidog ynghylch sicrhau bod amser yn y rhaglen ddeddfwriaethol i Fil Amaethyddiaeth Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb i'r cwestiynau uchod cyn gynted ag y bo modd, ac erbyn **dydd Mawrth 25 Mehefin** fan bellaf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi am ein hysbysu o'r dyddiadau ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ac o'r prif faterion sydd i gael eu trafod. Yn unol â'r *cytundeb rhyngsefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru*, byddem yn croesawu cael manylion mwy penodol am eitemau agenda ar gyfer pob cyfarfod, wrth iddynt ddod ar gael. Edrychwn ymlaen at gael crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod ar 26 Mehefin maes o law.

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig